# Adroddiad Prosiect Grant

2021-2022





mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

NDNA
National Day Nurseries Association
Brighter thinking for early years

pacey CYMRU

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Manylion y prosiect:

**Enw'r Sefydliad Arweiniol:**

Mudiad Meithrin (MM)

**Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:**

Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r Partneriaid:**

- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Mudiad Meithrin (MM)
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)

**Teitl y Prosiect:**

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

**Cyfnod Adrodd:**

1.4.2021 – 31.3.2022

**Swm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.4.2021 - 31.3.2022:**

£1,634,410 - am 12 mis
£1,000,000 – cyllid ychwanegol

# Cynnwys:


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir | 4 |
| 2. Cyflwyniad | 6 |
| 3. Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwlwm | 9 |






# 1. Cefndir

Mae **Cwlwm** yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy’n sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull ‘system-gyfan’ Llywodraeth Cymru.

Mae **Cwlwm** - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru (Wales PPA yn flaenorol) - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i’r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Mae’r materion hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu’r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio mae’r prosiect yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae **Cwlwm** yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae’r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae’n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

# Mae Cwlwm:

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu**'r **gweithlu** gofal plant a gwaith chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig**, **tlodi** a'r **Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth reolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a gwaith chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.



# 2. Cyflwyniad

Ers sefydlu'r bartneriaeth yn 2014 mae Cwlwm wedi creu a datblygu perthynas gweithiol er mwyn cyflawni amcanion dros blant a theuluoedd yng Nghymru.

Unwaith yn rhagor, profodd 2021-22 yn gyfnod anodd a heriol i'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae oherwydd Cofid-19.  Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i bob partner addasu ei ddulliau gweithio a gweithredu yn sylweddol gan atgyfnerthu partneriaeth waith rhagorol Cwlwm.  Parhaodd 2021-22 yn gyfnod anrhagweladwy iawn ond dangosodd targedau ychwanegol Cofid-19, ansicrwydd BREXIT a'r newid posib i flaenoriaethau gwleidyddol ar ôl etholiadau'r Senedd gallu Cwlwm i weithio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddi-baid i sicrhau bod digonedd o gymorth ar gael i gefnogi tirwedd newidiol y sector gofal plant a gwaith chwarae.

Yn ystod 2021-22, canolbwyntiodd Cwlwm ar gyflawni'r ddau amcan cyffredinol canlynol (er mwyn cefnogi aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau o sefydliadau partneriaeth Cwlwm), tra hefyd yn defnyddio ymagwedd 'sector gyfan' i gefnogi'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae yng Nghymru:

## **Amcan 1:** Cefnogi a datblygu Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae o Ansawdd Uchel:

Cyflawnir hyn drwy weithio yn y meysydd allweddol hyn:

- Cefnogi Busnesau
- Covid-19: cymorth gydag adferiad a sicrhau cynaliadwyedd i fusnesau
- Gwaith Deddfwriaethol yn Ymwneud â'r Meysydd Gofal Plant a Chwarae, gan gynnwys y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)
- Cyfrannu at waith yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu
- Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar (Cofrestriad Proffesiynol o'r Gweithlu) **
- Lledaenu gwybodaeth i'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae
- Y Cynnig Gofal Plant
- Cefnogi'r sector i oresgyn unrhyw heriau yn ogystal ag ymateb i unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o BREXIT

*** Er bod gwaith cysylltiedig ar raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar (Cofrestriad Proffesiynol o'r Gweithlu) yn rhan o gynllun gwaith Cwlwm, cafodd y gwaith hwn ei ohirio gan Lywodraeth Cymru ac ni symudodd ymlaen yn ystod y flwyddyn. Bwriedir cynnal gweithdai i ddatblygu'r maes gwaith hwn o fis Ebrill 2022. Fodd bynnag, roedd partneriaid Cwlwm yn rhan o'r cyfweliadau adolygu annibynnol i'r gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar (CPEY) a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror 2022.*



## **Amcan 2:** Cefnogi gweithrediad polisïau allweddol a mentrau o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae:

Cyflawnir hyn drwy gyflawni gwaith yn y meysydd allweddol hyn:

- Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Rhaglen 'Iaith Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC)
- Cwricwlwm i Gymru
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Fel nodwyd yn flaenorol, defnyddiwyd 'dull sector-gyfan' i gyrraedd y gynulleidfa darged o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- AWARE
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Busnes Cymru
- Darparwyr a rhanddeiliaid o fudiadau unigol
- Partneriaid eraill

Fel tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad cyllid mewn perthynas â Chonsortiwm Gofal Plant Cwlwm, darparodd bartneriaid adroddiadau monitro naratif chwarterol i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi'r meysydd gwaith a gyflawnwyd gan Cwlwm. Roedd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys pedair rhan:


1. Gwybodaeth fonitro ar gyflawniad gwaith **unigol** y 5 mudiad yn ymwneud â thargedau a gwaith Cwlwm yn unig.
2. Gwybodaeth fonitro ar waith strategol partneriaid Cwlwm **ar y cyd** e.e. gwaith yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru.
3. Gwybodaeth am waith dyddiol partneriaid Cwlwm.
4. Gwybodaeth ar waith a gyflawnir gan bartneriaid Cwlwm, sy'n cael ei gyllido gan ffynonellau eraill e.e. grantiau sirol, cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, h.y. Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd yr wybodaeth yma yn dangos y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd tu hwnt i gyllid Cwlwm gan esbonio'n glir i gyllidwyr eraill sut roedd eu cyfraniadau ariannol nhw yn cyfrannu at a chyfoethogi gwaith y sector.

# 3. Amcanion, targedau a chyflawniadau Cwlwm

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r wybodaeth a ddarperir o ran amcanion a chyflawniadau Cwlwm yn canolbwyntio ar waith strategol **ar y cyd** y partneriaid.

## **Amcan 1:** Cefnogi a datblygu gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae o ansawdd uchel

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Busnes Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i hyrwyddo mapio darpariaeth cymorth busnes, gan ganiatáu i holl randdeiliaid gyfeirio darparwyr gofal plant a gwaith chwarae at y gefnogaeth berthnasol, er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i sefydlu, datblygu a thyfu eu busnes mewn modd cynaliadwy. Sicrhau bod gwybodaeth cymorth busnes Cwlwm yn cael ei diweddaru bob dwy flynedd. Parhau i gynghori Llywodraeth Cymru ar anghenion cymorth busnes y sector - trwy'r grŵp cymorth busnes. | **Tudalen We Cymorth Busnes:** Chwaraeodd partneriaid Cwlwm rôl allweddol yn natblygiad y dudalen we hon. Cyflawnwyd hyn drwy gyfres o gyfarfodydd grŵp T&C. Cyfrannodd partneriaid yn helaeth i'r dudalen, trwy wneud argymhellion, rhannu syniadau, darparu gwybodaeth a sicrhau bod gan ddarparwyr fynediad rhwydd at gefnogaeth berthnasol. Darparwyd astudiaethau achos, yn dangos sut y bu darparwyr ar draws Cymru yn elwa o gefnogaeth busnes. Hyrwyddwyd y dudalen we newydd yn weithredol drwy'r cyfyngau cymdeithasol a newyddlen Cwlwm.<br><br>**Enghreifftiau eraill o gefnogaeth busnes:** Wnaeth partneriaid Cwlwm:<br><br>• parhau i rannu cyfleoedd i dderbyn grantiau/nawdd gydag aelodau<br>• ymgeisio am nawdd ychwanegol i helpu cefnogi aelodau, pryd bynnag gawsant gyfle<br>• mynychu cyfarfodydd amrywiol lle wnaethant barhau i eirioli dros y sector, annog cefnogaeth ariannol, recriwtio/cadw staff, hyfforddi/cymwysterau, gofynion rheoleiddio, ac ati<br>• parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i adnabod anghenion y sector, rhannu ymarfer da ac adnabod cyfleoedd i gydweithio<br>• Ymateb i ymgynghoriadau cefnogaeth busnes perthnasol |



| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Busnes Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gefnogi'r sector gofal plant a chwarae, er mwyn goresgyn effaith Covid-19 a sicrhau cynaliadwyedd parhaus. Bydd hyn yn sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru yn elwa o ddarpariaeth gofal plant a chwarae fforddiadwy o ansawdd a bod teuluoedd yn cael eu cefnogi â'u hanghenion gofal plant, gan alluogi rhieni i weithio. | Gafodd Covid-19 effaith enfawr ar y sector. Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn ddiflino, yn cynrychioli ac yn cefnogi'r sector drwy'r canlynol:<br>• darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â Covid-19, gan gynnwys sicrwydd ansawdd ac adolygu canllawiau Covid-19 y Llywodraeth<br>• ystyried effeithiau ehangach datblygiadau Covid-19 ar ddarparwyr gofal plant, megis profi'r gweithlu, arweiniad craidd<br>• rhannu cyngor parhaus ar faterion y sector er mwyn hysbysu datblygiad polisi a'r broses gwneud penderfyniadau yn dilyn Covid-19<br>• Cyfarfodydd Ysgolion a Gofal Plant cenedlaethol<br>• Cyfarfod Bwrdd Diwygio ac Adnewyddu<br>• Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol: adroddiad effeithiau Covid 19 ar y gweithlu<br>• Cyflwyno blaenoriaethau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg<br>• Holiadur Cyflwr y Sector/ adroddiad 'Recovery Calls' wedi ei deilwra i bob ALl i gefnogi'r Astudiaethau Digonolrwydd Gofal Plant<br>• Ymgynghoriadau: Cyllideb; Gofal Plant a Chyflogaeth Rhieni, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth yn rhan o ESJC ac annog lleoliadau i fynychu digwyddiad Bwrdd Crwn<br>• Sesiynau Arbenigwr Gofal Plant Busnes Cymru: heriau cyflogaeth/datblygu busnes<br>• Digwyddiadau Ymgysylltu Busnes Diwygio'r Flwyddyn Ysgol<br>• Trafod yr heriau'n wynebu'r sector gyda'r dirprwy weinidog<br>• Cyfarfod Haf o Hwyl y Comisiynydd Gofal Plant<br>• Adnodd Cynghorion Campus ar Gyfer Ceisiadau Grant a chytundebau grant yr Awdurdodau Lleol<br>• Yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â phryderon ar lefel cenedlaethol yn ymwneud â gofalwyr plant ac achosion cadarn o Covid yn y cartref |

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cefnogi lleoliadau i roi gwybodaeth briodol i Awdurdodau Lleol ar gyfer asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) 2022. | **Chwaraeodd partneriaid Cwlwm ran allweddol a phwysig yng ngweithrediad yr ADGP, gan gynnwys:**<br>• cefnogi lleoliadau efo SASS: webinarau, galwadau ffôn e-bost, adnoddau, helpu hyrwyddo ADGP<br>• gweithio gydag AGC i ddatblygu cynnwys SASS, hyrwyddo a gwella cyfradd cwblhau'r SASS<br>• gyda nawdd ychwanegol, darparu gwybodaeth arolwg Cyflwr y Sector a phersonolwyd (rhieni/gofalwyr a lleoliadau) I'r Awdurdodau Lleol<br>• cyfrannu at arolwg rhieni LIC i'r ADGP<br>• hyrwyddo gofal plant cofrestredig gyda'r daflen Manteision Cofrestru cyn danfon allan arolwg rhiant yr ALI<br>• hyrwyddo arolygon ADGP (arolygon rhiant/ gofalwr a darparwr/rhanddeiliad) a chymryd rhan ym mhob ymgynghoriad ADGP a chynhaliwyd gan ALI, ble gofynnwyd i ni wneud felly. Darparwyd crynodebau sirol o ddata Cyflwr y Sector (2021) i'r holl Awdurdodau Lleol. |
| Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r argymhellion yn unol â'r adolygiad SGC, gan ddarparu arweiniad a chefnogaeth i ddarparwyr i fodloni gofynion yr SGC. | Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos â Llywodraeth Cymru, gan fynychu ac arwain ar gyfarfodydd rheolaidd. Roedd eu harbenigedd a gwybodaeth yn allweddol wrth yrru penderfyniad LLC i ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r SGC i ofal plant wedi'i reoleiddio i blant hyd at 12 oed. Arweiniodd partneriaid Cwlwm 2 grŵp gwaith, a wnaeth yr holl bartneriaid gynrychioli'r sector yn grwpiau gwaith amrywiol a'r cyfarfodydd cyffredinol, gan rannu gwybodaeth ddefnyddiol, cyngor ac adborth ar y newidiadau arfaethedig, gan sicrhau bod yr argymhellion yn osgoi unrhyw fath o ddehongliad amwys, ac wrth symud ymlaen fydd yna arweiniad clir i'r sector. |



| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cefnogi Llywodraeth Cymru mewn gwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r meysydd gwaith Gofal Plant a Chwarae, gan gynnwys y newid i'r cynllun Nanis newydd ar gyfer Cymru ac unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig i weithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac adnewyddu a'r ymgynghoriadau arfaethedig ar y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ynghyd â diweddaru'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010. | Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth PACEY Cymru hyrwyddo a pharhau i gefnogi'r Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (2021), gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a phecynnau aelodaeth ar gael i nanis iddynt gwrdd â'r meini prawf. Yn anffodus, dengys y rhifau a darparwyd gan AGC gostyngiad yn y niferoedd ar y cynllun. Rydym yn monitro hyn.<br><br>Bu oediad yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i Ofalwyr Plant, ond gafodd ei ail-gychwyn ym mis Ionawr 2022. Fe wnaeth PACEY Cymru:<br>• weithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar eiriad holiadur, cyfathrebiadau a hyrwyddo<br>• hyrwyddo'r arolwg i'r sector drwy stori newyddion a chyfathrebiadau cysylltiedig<br><br>Yn ystod Rhagfyr 2021 fe wnaeth partneriaid Cwlwm cyfarfod â staff LlC i drafod diweddaru'r Rheoliadau Gofal Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010, i baratoi at yr ymgynghoriad. Lleisiodd y partneriaid eu barn ar y gwelliannau arfaethedig, a rhoddwyd cyngor ar y math o faterion all godi o'r newidiadau hynny. Roedd LLC yn ddiolchgar iawn am fewnbwn ac arbenigedd Cwlwm ar y pwnc. Daliodd partneriaid Cwlwm i gefnogi LLC drwy rannu gwybodaeth am y rheoliadau â'r sector trwy ein sianeli ar y cyfyngau cymdeithasol a thrwy newyddlen Cwlwm. |





| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Gyda'r symudiad ehangach tuag at ddigideiddio, cefnogi AGC gyda datblygiad pellach i systemau ar-lein / SASS / newidiadau i drefniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gweithio gydag AGC i gefnogi cysondeb yn nhermau rheoleiddiad, cofrestriad ac arolygiad. | **Daliodd partneriaid Cwlwm i gyd-weithio ag AGC drwy:**<br>• ddarparu adborth/argymhellion yn dilyn arddangosiad SASS ym mis Mehefin<br>• hyrwyddo'r broses GDG newydd drwy'r Swyddfa Bost<br>• dynnu sylw AGC at ymholiadau yn ymwneud â'r broses GDG a SASS pan gododd hwy<br>• gefnogi'r sector i gyflwyno eu SASS, a hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebiadau sefydliadol (cyfryngau cymdeithasol, newyddlenni, cynnwys gwefan), cefnogaeth dros e-bost a'r ffôn a ffyrdd eraill. Cyfrannodd hwn at y gyfradd ymateb uchel o 90%<br>• barhau i dynnu sylw AGC at broblemau drwy ddiweddaru cofnod CWLWM<br>**Wnaeth PACEY Cymru gynrychioli Cwlwm ar Fwrdd Cynghorol Cenedlaethol AGC, a chefnogi trafodaethau ar faterion megis:**<br>• 'Lleisiau o'r sector'<br>• Cynllun strategol AGC<br>• Yr ymateb ôl-pandemig<br>• Ffyrdd AGC o weithio yn y dyfodol |

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Hybu a chodi ymwybyddiaeth o gymwysterau GPCDD, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, y rhaglen prentisiaeth a CaLl o fewn y darpar weithlu, ac annog datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector (mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG). | **Mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm gyfarfodydd QSAG a chwarae rôl allweddol yn nhrafodaethau ynghylch:**<br>• canllaw 'Ymarfer Da' ar ddarparu cymwysterau<br>• yr angen i greu cyswllt rhwng y Prentisiaethau a gwefan 'Gofalwn/WeCare' i gynyddu'r proffil/ canfyddiadau<br>• yr angen i gefnogi dysgwyr Cymraeg ond sy'n dewis cael eu hasesu drwy'r Saesneg gan nad ydynt yn hyderus y byddant yn medru deall y Gymraeg a ddefnyddir wrth gynnal asesiadau ffurfiol.<br>• y pwysigrwydd o annog defnydd o'r Gymraeg bob dydd er mwyn cynyddu'r nifer o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg<br>• mapio Arweinyddiaeth/Rheoli i raddau Ymarfer BC.<br>• pryderon gan ddarparwyr, cyflogwyr a dysgwyr ynghylch maint cymwysterau, gorbwyslais ar yr academaidd, sgiliau hanfodol a mynediad i leoliadau. (Bu llawer o adborth da hefyd, yn cynnwys gwell dealltwriaeth a chynnydd hyder).<br>• gweithio gyda Cymwysterau Cymru i fynd i'r afael â heriau cymhwyster yn sgil y pandemig a lleoliadau<br>**Daliodd partneriaid Cwlwm i:**<br>• hyrwyddo ymwybyddiaeth o GPCDD a chymwysterau cyfrwng Cymraeg.<br>• cefnogi dulliau amgen o asesu GPCDD dros dro, a'r cynllun i symud i ffwrdd o ddulliau arolygu o bell<br>• cefnogi aelodau ar y cyrsiau 'Camau' drwy gyswllt gyda chydlynwyr a sesiynau trafod 'Caffi Clebran' a sesiynau pwrpasol gan Gydlynwyr Camau Cwlwm i gefnogi dysgwyr. |





| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliadau perthnasol eraill ar weithgarwch i gefnogi a datblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae, er enghraifft ymgyrchoedd Gofalwn Cymru, cynhyrchu canllawiau ar gyfer lleoliadau ac ati. | Yn ystod y flwyddyn wnaeth cynrychiolwyr Cwlwm:<br>• gyflwyniad i'r rhwydwaith BC GCC ar y cynllun 'Camau'<br>• darparu adborth i Gofalwn/WeCare Cymru ar ymgyrchoedd, tra hefyd yn rhannu negeseuon/cyfathrebiadau, cardiau gyrfa gwaith chwarae, e.e. cystadleuaeth Instagram i blant, ymgyrch prentisiaethau, disgrifiadau swydd gweithiwr chwarae a gweithiwr chwarae hŷn, digwyddiad porth cyflogwyr<br>• darparu adborth adeiladol ac estynedig ar adnoddau hyfforddiant Atal a Rheoli Haint drwy'r grwpiau gwaith<br>• cefnogi gwaith a darparu adborth ar safonau diogelu drwy'r grŵp datblygu |
| Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r argymhellion y cytunwyd arnynt o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ynghylch cynrychiolaeth ar y cyngor sgiliau'r sector ar gyfer y sector Gwaith Chwarae a gweithio gyda'r sefydliad/sefydliadau perthnasol i gefnogi a datblygu'r gweithlu. | Yn dilyn gostyngiad yng nghyfranogiad SkillsActive fel rhan o'r Cyngor Sgiliau'r Sector, parhaodd Clybiau Plant Cymru Kids' Club a PETC i ymdrechu tuag at gefnogaeth lawn ar gyfer y sector Gwaith Chwarae yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda Gofalwn/WeCare Wales ac eraill i hyrwyddo/datblygu/cefnogi'r sector Gwaith Chwarae yng Nghymru.<br>**Adroddiad ac Argymhellion Drafft yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae:** Cyfrannodd cynrychiolwyr Cwlwm yn helaeth i'r adroddiad hwn, a darparu ymateb cynhwysfawr i rai o'r pryderon, e.e. diffyg cefnogaeth am gyfleoedd chwarae, diffyg hyrwyddo manteision cofrestru.<br>**Gwaith perthnasol arall:** Fe wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:<br>• hyrwyddo holiadur y gweithlu chwarae yn rhan o Adolygiad Annibynnol o'r gweithlu<br>• tynnu sylw NCFE at bryderon ynghylch newidiadau i gymwysterau Gwaith Chwarae Level 2 a 3, a chefnogi ail-ysgrifennu'r ddau gymhwyster (gwaith yn tynnu at ei derfyn) |

| Allbwn | Cyflawniad |
| --- | --- |
| Cydweithio â chyrff dyfarnu a chynrychiolwyr chwarae cenedlaethol, gan gynnwys Chwarae Cymru i greu Dyfarniad Trawsnewid newydd sy'n diwallu angen y sector sydd wedi'i fapio yn erbyn ystod ehangach o gymwysterau perthnasol. | Darparwyd y cymhwyster newydd, a ardystiwyd gan Gyrff Dyfarnu, a'i ychwanegu at restr cymwysterau PETC Cymru o gymwysterau sy'n angenrheidiol i weithio o fewn y sector Gwaith Chwarae yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd yn ddwyieithog, ac i gynulleidfa ehangach (blynyddoedd cynnar, cefnogaeth, dysgu a dysg mewn ysgolion, ysgol goedwig, gwaith ieuenctid). Mae hyrwyddo rheolaidd i ysgolion, ADEW, lleoliadau gofal plant ac Awdurdodau Lleol yn hybu diddordeb. |
| Cefnogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen ag argymhellion o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. | **Fe wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:**<br>• ymateb i'r adroddiad ac argymhellion draft.<br>• godi llais dros ofal plant cofrestredig a'i rôl allweddol wrth ddarparu gofal a chyfleoedd chwarae a arweinir gan blant i deuluoedd<br>• barhau i amlygu pwysigrwydd chwarae drwy lythyr/astudiaeth achos i Gyfarwyddwyr Addysg ac eraill<br>• gyfarfod Play Wales i gyfleu persbectif y sector All Ysgol<br>• ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol gyda chlybiau, cymunedau a phartneriaid eraill, trwy #showusyourplay, a chuddio codau QR o amgylch Cymru gyda chyfarwyddiadau i gemau buarth<br>• barhau i amlygu pwysigrwydd chwarae drwy 'Fun Friday', #showusyourplay a #WelshWednesday ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu syniadau â Gweithwyr Chwarae, gan gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac annog cysylltiad<br>• ddechrau cynllunio at Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 2022. |





| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth i ddarparwyr trwy ein e-newyddlen/ cyfryngau cymdeithasol/ gwefan i sicrhau bod y sector yn cael gwybodaeth lawn am ddatblygiadau i gynnwys:<br><br>• Strategaethau Cenedlaethol<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â grantiau cyfalaf, trosglwyddo i'r system ddigidol genedlaethol a'r holl ardaloedd polisi perthnasol)<br>• Cwricwlwm i Gymru<br>• Yr holl wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae er enghraifft | Cynhyrchodd partneriaid Cwlwm amryw o newyddlenni diddorol, llawn gwybodaeth, a rhennir y rhain yn eang gyda'n haelodau a rhanddeiliaid eraill drwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefannau.<br><br>Rhennir gwybodaeth berthnasol arall gyda'r sector yn yr un modd, gan gynnwys:<br><br>• postion niferus yn amlygu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru 2022, gan gynnwys adnoddau hyfforddi wedi eu diweddaru, dolenni i ymgynghoriadau a chyflwyniad addysgiadol<br>• gwybodaeth am y cynllun Camau<br>• gwybodaeth am y rheoliadau Covid19 ddiweddaraf<br>• gwybodaeth 'Pam Ddewis Gofal Plant Cofrestredig?'<br>• gweithgareddau Haf o Hwyl<br>• gweithgareddau Gaeaf Lles<br>• Diwrnod Chwarae 2021<br>• Cynnig Gofal Plant digidol<br>• adolygiad o'r cyfraddau<br>• holiadur ar dâl a recriwtio yn y sector<br>• modiwlau'n cefnogi gweithredu'r cwricwlwm<br>• gwybodaeth Gofalwn/WeCare Wales<br>• cyllid grantiau (grantiau Covid, a'r rhai a weinyddwyd gan ALl a Busnes Cymru)<br>• Cynhadledd GCC a digwyddiadau DPP<br>• Cynhadledd Gofal Plant Busnes Cymru<br><br>Diweddarwyd cofnod 'Siarad Gofal Plant' Cwlwm yn rheolaidd. Mae hwn yn amlygu pryderon ar faterion amrywiol, e.e. recriwtio staff, fformiwlâu cyllido aneglur, a darpariaethau newydd yn dadleoli rhai sy'n bodoli eisoes.<br><br>Mynychodd partneriaid Cwlwm cyfarfod y Cynnig Digidol Cenedlaethol, ble wnaethant gyfrannu at drafodaethau ar ymagweddau at y prosiect peilot, pontio i'r cynnig digidol, cyfathrebiadau, a hefyd darparu cefnogaeth i ddarparwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd. |

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o bwysigrwydd rôl gofal plant a chwarae wrth wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 ar draws holl allbynnau Cwlwm, fel ein bod yn gweithio tuag at brif-ffrydio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar draws y sector gyfan. | Bu cynnydd yn y cydweithio gwych rhwng partneriaid i ddatblygu gofal plant a chyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg, gyda thrafodaeth ynghylch/datblygiad nifer o opsiynau gofal plant hyblyg yn ardaloedd Pen Llŷn, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog.<br>Yn ystod y flwyddyn cododd cyfleoedd i gynrychiolwyr Cwlwm drafod a phwysleisio pwysigrwydd gofal plant a gwaith chwarae wrth wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050. Ceir enghreifftiau isod:<br>• ymweld â CM Drenewydd i drafod y dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg gyda Russel George, AS<br>• cyflwyno tystiolaeth i bwyllgor Seneddol ar gyflogadwyaeth merched<br>• cyflwyno tystiolaeth i bwyllgor Seneddol ar addysg cyfrwng Cymraeg<br>• cefnogi digwyddiad cronfa AwDUron yn y Senedd I gefnogi cyfieithiad llenyddiaeth i blant gan awduron Du I'r Gymraeg er mwyn sicrhau rhagor o adnoddau addas yn y Gymraeg<br>• mynychu ac ymateb i holl CSGAau yr Awdurdodau Lleol<br>• cyfeirio at sawl cynllun partneriaeth rhwng partneriaid Cwlwm yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg, e.e. gyda Swyddfa Comisiynydd yr Iaith, trafodaeth panel Pwyllgor Cydraddoldeb y Senedd ar Ofal Plant gyda Jenny Rathbone AS, Sioned Williams AS ac eraill o'r sector. |
| Cefnogi'r sector i oresgyn unrhyw heriau ac ymateb i unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o BREXIT drwy hyrwyddo Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru sy'n cynnig ystod gynhwysfawr o fecanweithiau cymorth i fusnesau ac sy'n cynnwys y 'Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein', llinell gyngor busnes ffôn, lleolwyr ariannol a llu o adnoddau ar-lein sy'n benodol i'r sector. | Hyrwyddwyd gwybodaeth am Borth Pontio'r UE Busnes Cymru ar wefan Cwlwm. |







## **Amcan 2:** Cefnogi gweithrediad polisïau a mentrau allweddol o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cefnogi datblygiad arweiniad, adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar sy'n ymwneud â'r Ddeddf ADY, a'r Cod a rheoliadau a wneir o dan y ddeddf. | Gweithiodd partneriaid Cwlwm i sicrhau:<br>• y cafodd yr holl wybodaeth/adnoddau hyfforddiant ar ddatblygiad y system ADY eu rhannu gydag aelodau drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol<br>• wnaethon nhw barhau i gysylltu â LIC am ddiweddariadau ar y deunyddiau arweiniol i'r sector nas gynhelir<br>• y diweddarwyd polisïau/adnoddau mewnol yn unol â'r Ddeddf<br>• y gwnaethon nhw roi adborth ar Gwestiynau Cyffredin y Rhaglen Trawsffurfio ADY<br>• y gwnaethon nhw rannu gyda LIC y rhwystrau/heriau potensial a wynebwyd yn rheolaidd gan aelodau, yn genedlaethol neu mewn ardaloedd penodol, wrth ei roi ar waith<br>• bod trafodaethau parhaus gyda Swyddogion ADY LIC ar rannu deunyddiau cefnogi estynedig â'r sector<br>• sgyrsiau parhaus gyda'r ALI i ddatrys heriau a rhannu arfer gorau |
| Cefnogi'r Arweiniadau Trawsffurfio ADY gyda gweithrediad yr elfen Blynyddoedd Cynnar o'r 'Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol' yr ADY. | Mynychodd yr Arweinydd Trawsffurfio cyfarfod Cwlwm ym mis Gorffennaf a rhannu diweddariadau perthnasol. Cynigwyd cyfle iddynt fynychu cyfarfodydd Hydref a Gaeaf 2021/22.<br><br>Mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm cyfarfodydd TSANA ac ymateb i faterion yn ymwneud â gweithrediad y Cod. |

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Gweithio gyda'r GDCG i hwyluso cyrsiau 'Iaith Gwaith' ar draws y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae (ariannir y gwaith gan £190,000 ychwanegol o nawdd). | **Mae partnerniaid Cwlwm wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau llwyddiant y cynllun Camau, trwy:**<br>• adolygu gwerslyfrau/adnoddau Mynediad a chynnal gweithgaredd mapio i adnabod bylchau yn yr adnoddau<br>• datblygu amserlen i rannu negeseuon cadarnhaol gan ddysgwyr ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• hyrwyddo'r gwaith/hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• creu astudiaethau achos i dynnu sylw at siwrne rhai o'r dysgwyr ar y cyrsiau Mynediad, a manteision cael mynediad at yr hyfforddiant<br>• creu fideos 'How do I say' ar gyfer cyrsiau Mynediad penodol<br>• hwyluso sesiynau Caffi Clebran i gefnogi dysgwyr oedd â mynediad at gyrsiau ar-lein Camau<br>• mynychu cyfarfodydd gyda'r GDCG i drafod trosolwg, darparu adborth, diweddaru ar gyrsiau Camau, yn ogystal â chynnal cyswllt rheolaidd i sicrhau dilyniant dysgwyr<br>• trefnu dashfwrdd a phorth hyfforddiant gyda'r CDCG i'r cydlynwyr iaith Gymraeg |



<table>
<tr><th>Allbwn</th><th>Cyflawniad</th></tr>
<tr>
<td>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynrychioli'r sector mewn perthynas â GAPC, Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).</td>
<td>
Gyda'u cyfoeth o brofiad a gwybodaeth, cyfrannodd partneriaid Cwlwm i'r meysydd polisi canlynol:
AGPC:
<ul>
<li>rhoddwyd mewnbwn strategol i grwpiau amrywiol o swyddogion yn ymdrin ag AGPC a'r Cwricwlwm i Gymru a'r angen i gydlynu rhwng y gwahanol gynlluniau ac i ddyfnhau'r elfennau sy'n berthnasol i bolisi Cymraeg 2050</li>
</ul>
Cwricwlwm i Gymru:
<ul>
<li>mynychu cyfarfodydd niferus i sicrhau datblygiad y cwricwlwm</li>
<li>ymateb i ymgynghoriadau amrywiol yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd, a'u hyrwyddo ymhlith aelodau</li>
<li>cynhyrchu adnoddau/adnoddau hyfforddiant i'r cwricwlwm</li>
<li>cyfrannu at y gwaith o olygu'r fersiwn iaith Gymraeg o'r cwricwlwm a'r fframwaith i leoliadau nas gynhelir i sicrhau cysondeb yn nherminoleg ac eglurder o ran yr iaith</li>
</ul>
Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru):
<ul>
<li>mynychu grwpiau gwaith TOG&D a gwneud cyfraniadau gwerthfawr i sicrhau bod cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru o 21.3.22 ymlaen</li>
<li>gweithio â LIC a rhanddeiliaid allweddol, gan edrych ar brosesau, arweiniad a hyfforddiant yn dilyn newid yn y gyfraith</li>
<li>derbyn llythyr o ddiolch gan Julie Morgan, AS, yn nodi ei diolchgarwch i bawb fu'n rhan o'r gweithrediad a phasio'r Ddeddf</li>
</ul>
Gwaith Gwrth-hiliaeth:
Mae partneriaid Cwlwm yn gwbl ymroddedig i gefnogi gweledigaeth a nod LIC o greu 'Cymru Fwy Cyfartal' ac o ganlyniad, wedi gweithio'n galed iawn i adlewyrchu ar, datblygu a thyfu ein hymarfer gwrth-hiliol drwy archwilio hil, cydraddoldeb ac amrywiaeth; tra hefyd yn cefnogi aelodau i ddarparu profiadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae o ansawdd sy'n ymgorffori gwerthoedd craidd yn ymwneud â hil, cydraddoldeb ac amrywiaeth a fydd yn cael effaith cadarnhaol ar ddeilliannau i blant a'u teuluoedd.
</td>
</tr>
</table>



| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cydweithio â Llywodraeth Cymru i drosglwyddo i'r gwasanaeth digidol cenedlaethol drwy:<br>• gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth i'r sector a rhoi cipolwg gwerthfawr ar faterion pontio a sianelau ymgysylltu<br>• gweithredu fel cyfrwng i ddarparwyr gofal plant i gefnogi recriwtio ar gyfer ymchwil defnyddwyr. | Fe wnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• parhau i hyrwyddo diweddariadau i'r amserlenni a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun trosglwyddo<br>• cyhoeddi FAQs ac annog pobl i fod yn rhan o gamau'r ymgynghoriad, yn unol â gweithgaredd prosiect fel y'i amserlennir<br>• cyhoeddi adnoddau i gynyddu proffil y Cynnig Gofal Plant i Gymru, a chynlluniau am wasanaeth digidol Cenedlaethol<br>• cynyddu ymwybyddiaeth o grantiau TGCh oedd ar gael drwy'r ALI i gefnogi lleoliadau i baratoi at y system newydd<br>• parhau i hyrwyddo'r hyfforddiant/adnoddau ar gael gan Cymunedau Digidol Cymru i gynyddu sgiliau digidol a hyder darparwyr gofal plant i baratoi at y system ddigidol newydd |





## Refeniw ychwanegol (£1,000,000): Cefnogi'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus ac fel rhan o ***'Raglen Lywodraethu 2021 - 2026'*** Llywodraeth Cymru

**Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:**

### Mudiad Meithrin

- cynnig aelodaeth, yswiriant a chefnogaeth fusnes rhad ac am ddim i Gylchoedd a meithrinfeydd
- cynnig hyfforddiant 'Cylch i Bawb' (Academi), gan hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb
- cyflogi staff llawrydd i sefydlu cynllun newydd 'Meithrin Gyrfa
- gweithio ar becyn swyddi amrywiol yn y gweithlu
- adolygu cynnwys Llyfr Mawr Piws (sef elfen greiddiol o gefnogaeth fusnes i ddarpariaethau)
- Buddsoddi mewn cefnogaeth fusnes taleithiol trwy:
  a. datblygu swyddog busnes
  b. gwaith ymchwil a chynllun i ddigideiddio cylchoedd Meithrin
  c. hyrwyddo gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg
- sefydlu Cylchoedd Ti a Fi i hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig
- denu mwy o bobl ifanc i'r gweithlu gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy weithio gyda Cholegau Addysg Bellach a Phrifysgolion
- gweithio ar adnoddau yn ymwneud ag amrywiaeth, cydraddoldeb ac egwyddorion gwrth-hiliaeth i hyrwyddo arfer da yn y sector cyfrwng Cymraeg
- comisiynu ymchwil i nodi unrhyw heriau penodol mewn perthynas ag anghenion ADY yn y sector cyfrwng
- cynnal ymgyrch aml-lwyfan i hyrwyddo gyrfa o fewn y sector gofal plant cyfrwng Cymraeg





**Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:**

## Blynyddoedd Cynnar Cymru

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

- darparu aelodaeth am ddim: galluogi cymorth busnes, hyfforddiant a chyllid
- datblygu cynllun Dysgu drwy chwarae wedi'i dargedu mewn ardaloedd difreintiedig i gefnogi grwpiau rhieni a phlant bach a rhyngweithio teuluol
- gweithio mewn partneriaeth â charchar y Berwyn i gefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar i gael profiad cadarnhaol o ymweliadau â rhieni mewn carchardai
- cefnogi datblygiad ansawdd mewn gofal plant: gwella prosesau ansawdd o bell i gefnogi gwaith datblygu'r lleoliad
- darparu arweinyddiaeth o leoliadau, hyfforddiant a rhwydweithio: cefnogi sgiliau arwain ar gyfer y sector a gweithio i wella safonau proffesiynol
- hyrwyddo dysgu proffesiynol: cefnogi ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer sefydliadau sy'n aelodau
- cefnogi'r sector gyda chyngor, arweiniad a grantiau/ cymorth cychwynnol: cyllid ar gyfer swyddi mewnol (Tachwedd – Mawrth)
- sicrhau cofrestru a chefnogi llywodraethu da ar gyfer lleoliadau gwirfoddol a reolir: cyllid ar gyfer swydd fewnol (Tachwedd – Mawrth)
- ymestyn gwaith Cydraddoldeb Hiliol gan adeiladu ar y rhaglen bresennol o weminarau gyda hyfforddiant pellach a chymorth i ledaenu dealltwriaeth o egwyddorion gwrth-hiliol, a datblygu adnoddau i gefnogi ymarferwyr
- cefnogi datblygiad y Gymraeg drwy adnoddau i helpu rhieni sydd adref gyda chysylltiadau â gwaith a wneir mewn lleoliadau – gan alluogi'r Gymraeg a ddatblygwyd mewn lleoliadau i gael ei defnyddio gartref gyda rhieni di-Gymraeg.



**Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:**

## NDNA Cymru

- cefnogi cynaliadwyedd y sector, darparu cyngor ac arweiniad ar grantiau, a chyfleoedd ariannu, gweithio gydag ALlau – Swydd Rheolwr Datblygu Taleithiol (Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022)
- gwella seilwaith TG i gynnwys datblygiad a gwefan CRM (*Customer Relationship Management*) newydd i gefnogi rhannu gwybodaeth gyda'r sector a gwella'r gallu i barhau i weithio gartref wrth ddiwallu anghenion y sector
- cynnig aelodaeth i gefnogi cynaliadwyedd a sicrhau bod y sector yn gallu derbyn cyfathrebiadau parhaus
- darparu cyfleoedd hyfforddi a pholisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru ar gyfer y sector i gefnogi'r gweithredu a'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru
- ymestyn prosiect Gwaith Gofal Plant o'r 1 Ionawr 2022 i 31 Mawrth 2022 i gefnogi darparwyr (gan gynnwys darparwyr Cymraeg) gyda phroblemau recriwtio tra hefyd yn dod ag unigolion sydd â'r priodoleddau cywir i'r sector, gan roi llwybr a chymorth iddynt ennill cymwysterau cydnabyddedig i barhau â gyrfa o fewn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar



## Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:

### Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs



- cefnogi costau cyflogau cyllideb craidd staff ac ar gyfer gweithrediadau craidd a delir o gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd
- darparu aelodaeth ar gyfer 846 o leoliadau Clwb All-Ysgol (£55) i gefnogi eu hadfywiad, gan sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar yr holl adnoddau aelodaeth a diweddariadau
- mapio a chwmpasu'r holl ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg All-Ysgol yn erbyn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ynghyd â Chylchoedd Meithrin sy'n cael eu datblygu drwy gynllun SAS Mudiad Meithrin, er mwyn pennu cyfleoedd datblygu a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu Cymraeg 2050
- uwchraddio ardaloedd cyfarfod mewn swyddfeydd rhanbarthol sydd â galluoedd digidol, gan roi cyfle i staff gwrdd â'r rhaglen lywodraethu i allu 30% o'r gweithlu i barhau i weithio'n effeithiol o adref, gan ganiatáu i breifatrwydd y rhai yn y swyddfa gyfarfod ar-lein ag eraill
- cyfleoedd dysgu a datblygu i uwchsgilio staff ac ymarferwyr All-Ysgol yn sgil y Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys cydraddoldeb hiliol, ADY
- cefnogi'r broses ADGP (CSA): hyrwyddo arolwg ADGP y rhieni a manteision cofrestru AGC i leoliadau, ysgolion a rhieni/gofalwyr, yn enwedig yn ystod cylchrediad holiadur y rhieni ym mis Hydref ac wedi hyn
- cefnogi Awdurdodau Lleol a lleoliadau gyda chyllid cynaliadwyedd ychwanegol i gefnogi'r sector: hyrwyddo grantiau a chefnogi lleoliadau i wneud cais lle bo hynny'n berthnasol.  Cefnogi Awdurdodau Lleol drwy adolygu unrhyw waith papur cais a mynychu cyfarfodydd y panel grantiau lle bo hynny'n bosibl
- parhau gyda hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi lleoliadau i fodloni disgwyliadau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol
- cyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg gryfach - gweithlu, adnoddau ac ati: yn dilyn mapio a chwmpasu'r holl ddarpariaeth gofal plant Cyfrwng Cymraeg All-Ysgol yn erbyn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ynghyd â Chylchoedd Meithrin sy'n cael eu datblygu drwy Gynllun SAS Mudiad Meithrin, datblygu a chefnogi lleoliadau. Gweithio hefyd gyda phartneriaid ychwanegol e.e. Menter Iaith, ysgolion ac eraill i gefnogi datblygiad, cofrestru AGC ac ansawdd lleoliadau Cymraeg i gyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu Cymraeg 2050




**Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:**

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

- hyrwyddo Gwaith Chwarae fel proffesiwn: gweithio gyda phartneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill i:
- datblygu marchnata a chyfathrebu e.e. fideos, asedau i hyrwyddo manteision chwarae, Clybiau All-Ysgol a Gwaith Chwarae fel proffesiwn i wella recriwtio a chadw staff.
- hyrwyddo cymwysterau'n eang a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i recriwtio, cadw, dathlu a chodi proffil Gweithwyr Chwarae.
- darparu cyfleoedd i staff hyrwyddo gwaith y sefydliad, Gwaith Chwarae, y sector a gwella eu harbenigedd a'u hansawdd eu hunain o ran darparu hyfforddiant ac ansawdd y sector All-Ysgol
- cefnogi plant drwy adferiad Covid-19 gyda datblygiad personol a chymdeithasol: cefnogi lleoliadau, rhieni ac eraill i ddeall manteision chwarae a hawl plant i chwarae. Darparu cyfleoedd ac adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi staff mewnol a gweithwyr chwarae yn eu rôl o gefnogi plant a chyfleoedd chwarae o ansawdd fel Egwyddorion Gwaith Chwarae, cefnogi plant hŷn a phobl ifanc, hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Bydd hyn yn cefnogi gweithwyr chwarae i wella eu harfer, gan eu grymuso i ddarparu amgylchedd yn llawn lle mae gan blant fynediad i'w hawl i chwarae a dysgwyr yn magu hyder yn eu hymarfer, dod yn eiriolwyr dros chwarae ac o ganlyniad, yn cynnig cyfle i blant chwarae, a chael clywed eu lleisiau.

## Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwlwm unigol:

### PACEY Cymru

- cefnogi lleoliadau drwy aelodaeth ac adnoddau aelodau i gael cyngor a chymorth o ansawdd uchel a chefnogi costau ariannol i ddarparwyr a chynaliadwyedd
- o'r 1 Hydref 2021 – 31 Mawrth 2022 cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau hyfforddi a chymorth cyn cofrestru ar gyfer lleoliadau gwarchod plant
- gwaith hyrwyddo gwarchodwyr plant gan gynnwys staffio, adnoddau a chyhoeddiadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan gyllid arall
- cyflawni ymrwymiadau gwariant craidd ar gyfer 21-22

### Partneriaid Cwlwm

Yn ogystal i'r amcanion unigol uchod, mae partneriaid Cwlwm hefyd:

**Llyfryn Dewis Gofal Plant:**

Ffurfiwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda rhanddeiliaid amrywiol yn mynychu cyfarfodydd i drafod ailysgrifennu'r llyfryn. Cydlynodd Cwlwm yr holl waith ac roeddynt yn ddylanwadol wrth yrru'r gwaith hwn yn ei flaen er mwyn sicrhau y bydd y llyfryn newydd yn hawdd ei ddefnyddio i'w gynulleidfa darged.

**Cynnig Gofal Plant Cymru: Gwasanaeth Cenedlaethol Digidol:**

Cefnogodd Cwlwm Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu'r cynnig digidol drwy fynychu gweithgorau a rhoi adborth yn ôl yr angen ar systemau a phrosesau arfaethedig. Rhannwyd diweddariadau a gwybodaeth hefyd â'r sector drwy amrywiaeth o ddulliau wrth i'r rhain gael eu cyhoeddi.

Bydd y broses o gyflwyno'r cynllun yn cael ei chynnal o Hydref 2022 gyda'r cynllun peilot yn cael ei gynnal rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022.

Hoffai partneriaid 'Cwlwm' ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod blwyddyn hynod o anodd gan nodi mai gweithio mewn partneriaeth sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl i blant a'u teuluoedd (drwy'r sector).

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs | Mudiad Meithrin | NDNA

PACEY | Cwlwm | Early Years Wales

cwlwm